


BookTrust
Story Explorers

# Gwerthusiad Story Explorers 2024–25

BookTrust
Getting children reading

**booktrust.org.uk**
**Dilynwch ni yn:** @BookTrust

© BookTrust 2026
Rhif elusen gofrestredig 313343



> “Mae pob plentyn yn haeddu llyfrau sy’n gwneud iddo chwerthin dros bob man, i gael ei gyffroi gan antur ac i ehangu ei orwelion fel y gall edrych ar y byd o safbwyntiau newydd. Mae llyfrau yn ein tynnu ni allan o’n hunain; gall llyfrau fod yn gysur yn ystod cyfnodau caled.”
>
> **Patrice Lawrence MBE, Awdur Plant**

BookTrust
Getting children reading

**Ynglŷn â BookTrust**


BookTrust yw elusen ddarllen fwyaf y DU. Bob blwyddyn rydym ni’n cyrraedd dros 1.4 miliwn o blant a theuluoedd ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rydym yn gweithio gyda phob awdurdod lleol, gan ddarparu rhaglenni wedi’u hysbysu gan dystiolaeth sy’n gwneud gwahaniaeth mesuradwy i ymddygiadau darllen plant. Mae ein gwaith wedi’i wreiddio yn y gred bod pob plentyn, yn enwedig y rhai o gefndiroedd teuluol incwm isel neu agored i niwed, yn haeddu’r cyfle i fwynhau darllen a’r holl fanteision gydol oes y mae’n eu cynnig.

# Cynnwys


Cyflwyniad ........ 4
Canfyddiadau allweddol ........ 6
Canfyddiadau manwl ........ 10
Beth nesaf? ........ 16
Cyfeiriadau ........ 17

# Cyflwyniad

Yn y blynyddoedd cynnar, mae perthnasoedd yn hollbwysig i ddatblygiad plant. Mae Story Explorers yn helpu rhai sy'n rhoi gofal i harneisio grym darllen ar y cyd, drwy straeon a gweithgareddau chwareus, i helpu plant mewn gofal mabwysiadol, maeth a gan berthynas i deimlo'n fwy digynnwrf, yn agosach ac yn fwy hyderus yn eu perthnasoedd. Mae'r rhaglen yn rhan allweddol o ymrwymiad BookTrust i greu profiadau darllen sy'n cefnogi cysur, sefydlogrwydd a pherthyn i'r plant sydd eu hangen fwyaf.






## Ynglŷn â Story Explorers

Rhaglen seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer plant blynyddoedd cynnar mewn teuluoedd mabwysiadol, maeth a gofal gan berthynas yw Story Explorers.

Mae'r rhaglen, a gyd-ddyluniwyd gyda bron i 100 o rieni, gofalwyr a phlant â phrofiad bywyd, yn cynorthwyo teuluoedd i ddatblygu cysylltiadau cryf a theimladau o ymlyniad trwy ddatblygu ymdeimlad o gysur, sefydlogrwydd a pherthyn trwy rannu straeon llawen gartref.

Mae teuluoedd sy'n cymryd rhan yn derbyn chwe phecyn misol, wedi'u danfon yn syth i'w cartrefi, pob un yn cynnwys llyfrau ac adnoddau sy'n cynnig dulliau ystyrlon ac ymarferol i ofalwyr gefnogi amgylchedd cartref magwrol.

I ymarferwyr, mae Story Explorers yn cynnig adnodd y gellir ei ymwreiddio yn eu harfer, gan gynnig gweithgaredd cartref cyson sy'n cryfhau sefydlogrwydd teuluol ac yn cefnogi canlyniadau cadarnhaol i blant.



## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn rhannu canfyddiadau o'n treial cynyddu graddfa, a oedd yn cynnwys:

- **22 o gyfweliadau manwl** gyda gofalwyr maeth, gofalwyr sy'n berthynas, rhieni mabwysiadoli a dderbyniodd Story Explorers
- **Sgyrsiau manwl** gyda gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd yn chwech o'n sefydliadau peilot
- **32 o ymatebion** i'n harolwg rhieni/gofalwyr
- **23 o gardiau post/lluniau** gan blant (rydym yn ystyried plant yn gyfranogwyr gweithredol ac yn defnyddio ffyrdd ystyriol o blant o wrando ar eu lleisiau)
- **Prosesu dysgu gyda 28 o sefydliadau**, gan gynnwys timau awdurdod lleol, asiantaethau maethu annibynnol, asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol ac elusennau

Mae'r themâu a amlinellir yn y papur briffio hwn yn seiliedig ar brofiadau a safbwyntiau y rhai y gwnaethom siarad â nhw ac efallai nad ydynt yn gynrychiadol o bob teulu sy'n derbyn Story Explorers. Mae enwau plant/gofalwyr wedi cael eu newid i ddiogelu anhysbysrwydd.



Mae teuluoedd yn sicrhau sefydlogrwydd, cysylltiad a pherthyn mewn llawer o wahanol ffurfiau, a gellir meithrin ymdeimlad plant o ddiogelwch trwy rwydwaith eang o berthnasoedd gofalgar.[1] Mae Story Explorers yn dathlu ac yn cryfhau'r cysylltiadau hyn ar draws bob math o deulu.

## Diolch

Hoffem ddiolch i'r holl sefydliadau sy'n cymryd rhan yn ein dysgu, yn enwedig Kinship, y Rhwydwaith Maethu ac Adoption Focus am gefnogi ein cyd-ddyluniad, a Tameside Virtual School a'r National Fostering Group am gefnogi ein dysgu manwl gyda theuluoedd. Diolchwn hefyd i'r holl blant a gymerodd ran a'r rhai sy'n rhoi gofal iddynt sy'n chwarae rhan mor bwysig.

[1] Mewn un awdurdod lleol, cafodd Story Explorers ei ymestyn i deuluoedd sy'n derbyn cefnogaeth cymorth cynnar drwy ganolfannau teuluol.

# Canfyddiadau allweddol

Mae rhieni/gofalwyr yn dweud wrthym fod Story Explorers yn helpu i gryfhau arferion darllen a pherthnasoedd. Mae'r canlyniadau hyn yn bwysig ynddynt eu hunain, ond maent hefyd yn bwysig gan fod profiadau perthynol syml a chyson fel darllen ar y cyd yn helpu i ddatblygu ymdeimlad plant o barhauster, diogelwch a pherthyn yn y pen draw.

"Rydym wedi darllen iddi erioed ac wedi defnyddio'r llyfrau caled â cherddoriaeth a llabedi. Roedd elfen fach o fwynhad erioed, ond dim ond yn yr wythnosau diwethaf yr ydym ni wedi ei gweld hi'n dangos diddordeb ei hun mewn llyfrau. Y llyfr cyntaf y gwnaeth hi ei dderbyn gennych oedd *Postman Bear* gan Julia Donaldson, ac roedd dagrau o lawenydd yn ein tŷ ni ychydig wythnosau yn ôl pan gymerodd lyfr ei hun a dechrau troi'r tudalennau ar ei phen ei hun a threulio rhywfaint o amser yn edrych ar bob tudalen. Diolch am y llyfrau hyn - maen nhw'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac wedi cael effaith fawr ar fywyd plentyn maeth."

**Gofalwr maeth**

## 1. Cryfhau arferion darllen

- **Mae 25 o 32 o rieni/gofalwyr** yn dweud bod eu plentyn wedi siarad neu ryngweithio mwy wrth ddarllen ar y cyd ers defnyddio'r pecynnau
- **Mae 27 o 32 o rieni/gofalwyr** yn dweud bod eu plentyn bellach yn chwilio am gyfleoedd i rannu llyfrau a straeon neu'n edrych ymlaen atynt yn rhan o'u diwrnod
- **Mae 24 o 32 o rieni/gofalwyr** yn dweud eu bod yn credu'n gryfach ym muddion darllen i'w plentyn ar ôl derbyn Story Explorers

### Pam mae hyn yn bwysig:

Mae ymchwil yn dangos pan fo darllen ar y cyd yn rhyngweithiol a bod pawb yn ei fwynhau, bod plant yn fwy brwd am ofyn amdano, bod y rhai sy'n rhoi gofal yn cael mwy o foddhad ohono[2] a bod teuluoedd yn darllen gyda'i gilydd yn amlach. Mae pob profiad cadarnhaol yn adeiladu, gan greu cylch sy'n cael ei ysgogi gan y gofalwr a'r plentyn i ymwreiddio darllen ar y cyd mewn bywyd bob dydd. Mae darllen ar y cyd cynnar yn arwain at fuddion datblygiadol eglur sy'n helpu i leihau anghydraddoldebau[3], ond gellid dadlau mae ei gryfder mwyaf yw meithrin rhyngweithiadau cyfoethog rhwng y rhai sy'n rhoi gofal a phlant[4], sef sylfaen gofal perthynol cryf.





**Astudiaeth achos**

### Tîm Gofal Amgen Caerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf (BANES)

Trwy waith y Tîm Gofal Amgen, cymerodd 14 o deuluoedd gofal gan berthynas â phlant 2-4 oed ran yn Story Explorers, gan ddefnyddio tanysgrifiadau wedi'u hariannu'n llawn yn rhan o'r rhaglen o waith ar gyfer Strategaeth Gofal gan Berthynas Genedlaethol yr Adran Addysg.

Yn BANES, neilltuir gweithiwr i bob teulu gofal gan berthynas, sydd â phwyntiau cyswllt rheolaidd gyda'r teulu. Mae hwn yn gyfle gwych i ddarganfod sut mae'r teuluoedd yn defnyddio'r pecynnau ac i gael safbwyntiau gwerthfawr wrth hyrwyddo ac annog teuluoedd i ddefnyddio'r adnoddau.

"Mae Story Explorers yn gyfle gwirioneddol hyfryd i gynnig i'n gofalwyr. Mae'n cynnig cymorth gweladwy sy'n hwyl ac yn ddifyr, tra'n hyrwyddo ymlyniad a chysylltiad yn weithredol. Mae'n braf gallu cynnig rhywbeth y tu hwnt i gyngor a chyfarwyddyd, oherwydd nid yw gofalwyr yn aml yn derbyn adnoddau ymarferol y gallant eu defnyddio gartref. Er ein bod ni'n cynnal gweithgareddau a grwpiau cymorth, mae hyn yn cefnogi'r berthynas rhwng y gofalwr a'r plentyn yn uniongyrchol mewn bywyd teuluol bob dydd, sy'n ei wneud yn adnodd gwirioneddol werthfawr a pharod i'w ddefnyddio."

**Cat Reeves, Dirprwy Reolwr Tîm, Tîm Lleoli Teuluoedd**

## 2. Cryfhau perthnasoedd

- **Mae 29 o 32 o rieni/gofalwyr** yn dweud bod eu plant yn mwynhau defnyddio'r pecynnau
- **Mae 31 o 32 o rieni/gofalwyr** yn dweud eu bod yn mwynhau defnyddio'r pecynnau gyda'u plant
- **Mae 20 o 33 o rieni/gofalwyr** yn dweud bod Story Explorers wedi creu mwy o gyfleoedd i dreulio amser o ansawdd gyda'u plant

> "Roedd eisiau dod i eistedd gyda mi... doedd e ddim i gychwyn. Byddech chi'n amlwg yn darllen, ond mae'r rhyngweithio'n dod yn fwy ... mae'n troi'r tudalennau, ac mae wedi bod yn rhan bendant o'i drefn amser gwely ei fod yn mynd i ddarllen stori cyn mynd i'r gwely."
>
> **Gofalwr maeth**

### Pam mae hyn yn bwysig:

Mae ymchwil yn dangos bod perthnasoedd rhoi gofal cynnar, yn enwedig y rhai sy'n meithrin cysylltiad ac ymlyniad, yn ganolog i ddatblygiad iachus.[5] Mae darllen ar y cyd yn cynnig cyd-destun delfrydol ar gyfer cynhesrwydd, ymatebolrwydd a chysondeb – sylfeini ymddygiadol perthnasoedd cryf a chefnogol. Oherwydd y gall cynnal y mathau hyn o ryngweithiadau ofyn am ddyfalbarhad a dycnwch gan y rhai sy'n rhoi gofal, mae cymorth darllen ar y cyd chwareus yn cynnig fframwaith addfwyn sy'n helpu'r rhai sy'n rhoi gofal i gynnig agosrwydd yn gyson yn y pen draw. I blant mewn gofal mabwysiadol, maeth a gan berthynas, gall gweithredoedd gofal bob dydd, fel darllen gyda'ch gilydd, fod yn atgyweiriol a helpu i greu ymdeimlad o berthyn.[6] Mae hyn oherwydd bod darllen ar y cyd yn cynorthwyo'r rhai sy'n rhoi gofal i gynnig rhagweladwyedd neu ddangos cefnogaeth yn ystod cam-reoleiddio emosiynol, gan helpu i gryfhau ymdeimlad mewnol plant o ddiogelwch.[7]








## Astudiaeth achos

### National Fostering Group

Mae'r National Fostering Group yn darparu Story Explorers i deuluoedd ar draws 11 o'i asiantaethau. Mae eu Pennaeth Effaith yn sicrhau bod ymarferwyr yn gymaint o ran o'r rhaglen â'r teuluoedd. Mae'r model darparu cartref misol yn golygu ei fod yn hawdd ei drefnu. Mewn rhai asiantaethau, mae ymarferwyr wedi creu grwpiau WhatsApp i ofalwyr rannu lluniau, syniadau ac anogaeth (mae tua thraean o ofalwyr maeth yn cymryd rhan fawr yn y grŵp mewn un asiantaeth), tra bod eraill yn defnyddio sesiynau goruchwylio misol i gadw golwg a gweld sut mae'r rhaglen yn mynd.

"Mae rhoi'r amser hwnnw iddyn nhw, yr amser un i un hwnnw, mae wir yn helpu gyda'r creu cysylltiad a rhoi rhywbeth iddyn nhw y gall y ddau ohonynt ganolbwyntio arno gyda'i gilydd - yr hwyl yma."

**Gweithiwr Cymorth Teuluol**

Er efallai fod eiliadau byr o fwynhad ar y cyd wrth rannu stori yn ymddangos fel rhywbeth bach, mae ymchwil o safbwyntiau plant ifanc yn dangos mai'r digwyddiadau a threfnau bob dydd hyn yw sut y maent yn datblygu ymdeimlad o berthyn, gan ddysgu dros amser "sut mae'r teulu hwn yn bod yn deulu".[8]

# Canfyddiadau manwl

Mae canfyddiadau o'n dysgu peilot yn cyd-fynd â thystiolaeth gynyddol o hap-dreialon dan reolaeth rhyngwladol o raglenni darllen ar y cyd – yn dangos y gellir sicrhau buddion i blant ac oedolion trwy feithrin rhyngweithiadau rhwng y rhai sy'n rhoi gofal a phlant.[9] Canfuwyd gennym y gall Story Explorers greu gofod a rennir syml ond grymus rhwng plant a'r rhai sy'n rhoi gofal iddynt, pont sy'n gwella cyfathrebiad, cyd-reoleiddio ac agosrwydd perthynol, gan gynnig i ffordd i blant fynegi emosiynau a phrofiadau, tra'n helpu'r rhai sy'n rhoi gofal i aros yn bresennol, yn gyfarwydd ac yn hyderus wrth ymateb i'w hanghenion.

Mae **gofalwyr** yn cael gwybodaeth fwy manwl am syniadau, teimladau a bydoedd mewnol plant.




Mae **plant** yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael sylw ac yn cael eu cefnogi trwy ryngweithiadau gwresog a chyson.

## Wedi'i ddylunio i wneud gwahaniaeth

Datblygwyd Story Explorers trwy gyd-ddyluniad helaeth â gweithwyr proffesiynol, rhieni/gofalwyr, a phlant mewn gofal mabwysiadol, maeth a gan berthynas. Gan ddefnyddio ei safbwyntiau ochr yn ochr â'n harbenigedd ein hunain yn y blynyddoedd cynnar a darllen, dyluniwyd Story Explorers gennym gan ddefnyddio dull wedi'i hysbysu gan dystiolaeth, sy'n canolbwyntio ar bobl. Mae'r dull hwn yn gwneud plant yn ganolog ac yn adlewyrchu cryfderau a heriau teuluoedd mabwysiadol, maeth a gofal. Mae ein dysgu peilot yn amlygu gwerth y dyluniad hwn.

> "Fe wnaeth y llyfrau helpu llawer, i'r ddau ohonom ni. Mae'n ei helpu hi gan ei fod yn ei helpu i wella ei sgiliau cyfathrebu a'i dealltwriaeth, ac mae o gymorth i ni, ein cysylltiad, gan ei fod yn amser y gallwn ni ei rannu gyda'n gilydd a chael hwyl... mae fel pont. Roeddem ni'n arfer cael trafferth yn cyfathrebu â Rocio, felly mae hyn wedi bod yn bwysig dros ben."
>
> **Rhiant mabwysiadol**



## 1. Newydd-deb a chwilfrydedd

Mae Story Explorers yn tanio chwilfrydedd, cyffro ac archwilio ar y cyd. Mae'r amrywiaeth o lyfrau ac adnoddau yn creu eiliadau o ddarganfyddiad sydd wedi dod â phlant ac oedolion ynghyd, gan helpu plant i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys trwy brofiadau ar y cyd newydd a gwneud i ddarllen deimlo'n bleserus ac yn werth chweil.

- **Profiadau ffres a difyr:** Mae pob pecyn yn cyflwyno themâu, straeon a deunyddiau newydd sydd wedi tanio chwilfrydedd a diddordeb parhaus.
- **Chwareus a hwyl:** Mae'r gwahanol eitemau ym mhob pecyn wedi meithrin llawenydd a dychymyg, gan helpu'r rhai sy'n rhoi gofal a phlant i archwilio gyda'i gilydd.



### Astudiaeth achos

### Ysbrydoliaeth ar y cyd

Mae Alessia wedi bod yn ofalwr maeth ers 11 mlynedd ac mae'n gofalu am bump o blant ar hyn o bryd, â'r tri ieuengaf yn derbyn Story Explorers. Sefydlodd ei hasiantaeth grŵp WhatsApp i ofalwyr sy'n derbyn Story Explorers. Rhannodd un gofalwr lun o fag ffa wedi'u orchuddio â sêr, a ddewiswyd i gyd-fynd â'r sêr yn y pecyn 'creu eich lloches ddarllen'. Roedd Alessia wrth ei bodd â'r syniad, felly creodd gornel ddarllen gyda'r sêr o'r pecynnau, bag ffa sêr ac ambell i gadair feddal arall. "Maen nhw'n gwybod pan fyddwn ni'n eistedd ar y cadeiriau yna ei bod hi'n amser darllen. Dim teganau eraill, dim ond y llyfrau." Roedd y plant wrth eu boddau o'r cychwyn, a daeth y gornel yn lloches, lle gallent dreulio amser gyda'i gilydd ac ymgolli'n llwyr yn y straeon heb unrhyw beth i dynnu eu sylw. Dywedodd Alessia wrthym, "Yn flaenorol, fe wnaethom ni geisio darllen ac roedd yn anhrefn braidd, ond gan eu bod nhw'n cael y llyfrau'n ffisegol drwy'r post ac mai eu llyfrau nhw ydyn nhw, maen nhw eisiau eu darllen nhw - maen nhw eisiau eistedd i lawr... Felly, mae'n llawer mwy digynnwrf ac rydym ni'n darllen llawer mwy o lyfrau." Fe wnaeth ymateb y plant i Story Explorers ysbrydoli Alessia ymhellach fyth. Mae bellach yn creu ei 'phecynnau Story Explorers' ei hun gartref i'w hanfon yn ôl i'w thŷ fel y gall y plant barhau i fwynhau'r cyffro o ddarganfod llyfrau newydd eu hunain.

## 2. Ymarferoldeb a hwylustod


Mae Story Explorers yn cryfhau'r hyn y mae teuluoedd eisoes yn ei wneud yn dda. Mae'n hawdd ei godi a'i ddefnyddio, gan helpu teuluoedd i greu mwy o eiliadau ar y cyd yn ystod eu dydd. Mae symlrwydd y deunyddiau yn cynorthwyo'r rhai sy'n rhoi gofal i ymgorffori darllen mewn trefnu arferol heb bwysau ychwanegol.

- **Cynnwys sy'n cyd-fynd â datblygiad:** Dywedodd rhieni/gofalwyr wrthym fod y deunyddiau yn teimlo'n bosibl ac yn bleserus i'w hunain ac i'r plant y maent yn gofalu amdanynt, gan ei gwneud yn haws i gymryd rhan a lleihau rhwystrau i ymgysylltiad.
- **Dechrau sgyrsiau:** Mae'r awgrymiadau a'r gweithgareddau yn y pecynnau wedi ei gwneud yn hawdd i deuluoedd eu cynnwys yn eu trefnau dyddiol, gan greu rhyngweithiadau ystyrlon o eiliadau cyffredin.

### Astudiaeth achos

#### *The Perfect Fit* – sut mae llyfrau yn dechrau sgyrsiau

Mae'r llyfrau wedi cael eu dewis yn ofalus ac wedi cymell sgyrsiau ystyrlon am emosiynau, teimladau a hunaniaeth. Mae un llyfr, The Perfect Fit, wedi helpu teuluoedd i drafod ac archwilio emosiynau mewn amryw o ffyrdd. Mewn un achos, fe wnaeth hyn gynnig cyfle i ddilysu profiad y plentyn ei hun a rhoi cysur. Mewn un arall, fe wnaeth gynnig cyfle i ddysgu i adnabod emosiynau pobl eraill.




*The Perfect Fit* gan Naomi a James Jones, cyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Rhydychen

"Pan roedd yn teimlo'n drist nad oedd y triongl yn ffitio i mewn ag unrhyw un o'r siapiau eraill, cefais sgwrs... Mae'n iawn teimlo'n wahanol. Oherwydd bydd Mike yn dweud weithiau ei fod yn rhyfedd ac mae'n rhaid i mi ei atgoffa nad yw'n rhyfedd... Mae'n iawn oherwydd mae pawb yn mynd i fod yn ffrindiau a gall ffitio i mewn yn rhywle arall." **Mam enedigol**

"Adnabod emosiynau, mae hynny'n rhywbeth y mae wedi ei wneud yn ddiweddar... Rwy'n gwybod am ffaith ei bod wedi sylweddoli o'r wynebau yn y llyfr, The Perfect Fit, sut roedd y bobl hynny yn teimlo." **Gofalwr sy'n berthynas**



## 3. Ymgysylltu rheolaidd

Mae'r rhan fwyaf o deuluoedd yn gwerthfawrogi darllen ar y cyd, yr her yw dod o hyd i'r amser a'r egni i'w wneud yn arfer rheolaidd. Mae'r pecynnau yn helpu i leihau'r ymdrech sydd ei hangen ac mae danfoniadau rheolaidd yn creu rhythm rhagweladwy o ymgysylltiad.

- **Darllen y tu hwn i amser gwely:** Mae argaeledd a pharhad y pecynnau wedi cynhorthwy darllen yn amlach, adeg mynd i'r gwely ond hefyd ar wahanol adegau o'r diwrnod.
- **Ymgysylltu â gofalwyr:** Yn ogystal â'r wybodaeth yn y pecynnau, anfonir negeseuon e-bost misol i ofalwyr, â thua 50% o ofalwyr yn agor negeseuon e-bost yn fisol a 10% yn chwilio am adnoddau pellach ar hyb ar-lein Story Explorers.



### Astudiaeth achos

#### Cymorth ymarferol i annog amser o ansawdd

Mae Emma, mam i dri sy'n gweithio, wedi canfod bod darllen gyda'i phlant wedi dod yn llai rheolaidd wrth i fywyd ddod yn brysurach, dim ond ychydig o weithiau yr wythnos. Mae Story Explorers wedi helpu i ailgyflwyno amser darllen mwy strwythuredig i'w diwrnodau.

Gyda'r pecynnau ar gael, mae Emma bellach yn dewis eu defnyddio mewn cyfnodau rhydd. "Roedd yn braf dros ben a gwnaeth i mi deimlo'n dda iawn, gan fod yr amser sydd gennym ni gyda'n gilydd fin nos braidd yn brin. Byddai wedi bod yn haws rhoi 15–20 munud arall iddyn nhw ar y llechen...

Ond oherwydd bod y pecynnau gen i, fe wnaeth hynny fy annog i ddweud na, rwyf i eisiau mynd i dreulio ychydig mwy o amser gyda nhw a gwneud defnydd ohono." Iddi hi, mae'r pecynnau wedi gwneud gwahaniaeth, gan helpi i fanteisio i'r eithaf ar ei hamser prin gyda'u plentyn ieuengaf. Ac i'w phlant, mae agor ac archwilio'r pecynnau wedi arwain at fwy o ddiddordeb yn y profiad darllen a pherchnogaeth ohono.



## 4. Perchnogaeth a galluogedd

Mae'r pecynnau yn cael eu cyfeirio at y plentyn ac maent yn perthyn iddyn nhw i'w cadw, sy'n annog eu cyfranogiad gweithredol. I rai plant, mae teimlo eu bod yn cael eu cofio a meddu ar rywbeth sy'n perthyn iddyn nhw hefyd yn cefnogi ymdeimlad ehangach o ddiogelwch a pherthyn.

- **Nodi perchnogaeth:** Mae rhieni/gofalwyr yn hysbysu bod plant wedi ymateb yn gadarnhaol iawn i gael rhywbeth wedi'i gyfeirio atyn nhw, sy'n teimlo ei fod wir yn perthyn iddyn nhw.
- **Hybu galluogedd:** Mae'r ymdeimlad hwn o berchnogaeth yn cynyddu annibyniaeth, hyder ac ymgysylltiad hunangyfeiriedig.



## Astudiaeth achos

### Taith Amara i berthyn

Mae Erica, sy'n ofalwr maeth, yn gofalu am Amara ac Alexander ar hyn o bryd. Mae'r ddau blentyn wedi mwynhau'r pecynnau, ond mae Amara yn arbennig wir wedi mwynhau derbyn y llyfrau a'r gweithgareddau. Mae wedi casglu'r holl eitemau mewn un blwch, wedi'i labelu gyda'i henw ac wedi mynd ag ef i'w hystafell "fel y gall neb ei gyffwrdd". Mae bellach yn treulio mwy o amser ar ei phen ei hun, yn darllen ac yn chwarae gyda'r pecynnau. Mae'r newid hwn yn ddangosydd pwysig o ddiogelwch a deimlir, heb fod angen gwirio'n gyson mwyach


bod Erica a'i gŵr dal yna. Mae Amara yn codi'n gynnar, ac mae'r llyfrau Story Explorers yn cynnig gweithgaredd hamddenol y gall ei gyflawni ar ei phen ei hun ar yr amser hwnnw. Mae amser gyda'i gilydd yn darllen ac yn chwarae gyda'r pecynnau gydag Erica wedi annog Amara i siarad am ei theimladau, yn enwedig o ran ei theulu genedigol. Mae wedi lleisio'r gobaith, "Pan fyddwn ni'n mynd yn ôl at mam efallai y gall wneud hyn gyda ni", sy'n awgrymu bod darllen ar y cyd wedi dod yn rhan o'i dealltwriaeth o deulu a pherthyn.

## Yr hyn sydd gan blant i'w ddweud

















## Beth nesaf?

Amlygodd gweithio gydag amrywiaeth o wahanol sefydliadau i ddeall sut y gellid rhoi Story Explorers ar waith ar raddfa fawr sawl gwers o ran proses. Yn benodol, canfuwyd gennym fod prosesau cynefino teuluoedd yn amrywio ar draws gwahanol gyd-destunau sefydliadol. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i gryfhau'r cymorth yr ydym yn ei gynnig i gwsmeriaid yn ystod y broses gynefino. Byddwn hefyd yn datblygu'r cymorth a ddarperir i ymarferwyr trwy dreialu model cymorth i ymarferwyr gwell ar raddfa fach, gyda'r nod o gryfhau eu heffaith ar ganlyniadau teuluoedd.

Mae ein rhaglenni blynyddoedd cynnar Dechrau Da cenedlaethol yn dangos gwerth yn gyson nid yn unig i deuluoedd ond hefyd i bartneriaid, gan helpu i gryfhau eu perthynas â theuluoedd - gan ddefnyddio llyfrau fel dull o gael gwared ar rwystrau, i ymgysylltu â theuluoedd ac i ddatblygu ymddiriedaeth. Wrth i ni fireinio ein proses gynefino a datblygu cymorth i ymarferwyr ymhellach, byddwn yn archwilio sut y gellir defnyddio Story Explorers yn y modd hwn.

# Cyfeiriadau


1 Foster, S. L., Schofield, G., Geoghegan, L., Hood, R., Sagi-Schwartz, A., Bakkum, L. and Duschinsky, R. (2025) 'Attachment theory and research: what should be on the core curriculum for child and family social workers?', *Social Work Education*, tudalennau 1–18. **https://doi.org/10.1080/02615479.2025.2531859**

2 Pillinger, C. and Vardy, E. J. (2022) 'The Story So Far: A systematic review of the dialogic reading literature', *Journal of Research in Reading*, 45, tudalennau 533-548. **https://doi.org/10.1111/1467-9817.12407**

Preece, J. and Levy, R. A. (2020) 'Understanding the barriers and motivations to shared reading with young children: The role of enjoyment and feedback', *Journal of Early Childhood Literacy*, 20 (4). tudalennau 631-654. **https://doi.org/10.1177/1468798418779216**

3 BookTrust (2025) *The benefits of reading*. Leeds: BookTrust **https://www.booktrust.org.uk/resources/reading-benefits/**

4 Murray, L., De Pascalis, L., Tomlinson, M., Vally, Z., Dadomo, H. and MacLachlan, B. (2016) 'Randomized controlled trial of a book-sharing intervention in a deprived South African community: Effects on carer–infant interactions, and their relation to infant cognitive and socioemotional outcome', *Journal of Child Psychology and Psychiatry*, 57(12), tudalennau 1370-1379. **https://doi.org/10.1111/jcpp.12605**

5 BookTrust (2025) *Building bonds through sharing books*. Leeds: BookTrust **https://www.booktrust.org.uk/resources/find-resources/building-bonds-through-sharing-books/**

6 Grant, M., Whincup, H. and Burgess, C. (2019) 'Perspectives on kinship care, foster care, and adoption: the voices of children, cares and adoptive parents.' Permanently Progressing? Building secure futures for children in Scotland. Prifysgol Stirling. **Final Report – Children Carers and Adoptive Parents.pdf**

7 Ainsworth, M. D. S., Blehar, M. C., Waters, E. and Wall, S. (1978) *Patterns of attachment: A psychological study of the strange situation*. Lawrence Erlbaum.

Bowlby, J. (1982) *Attachment and loss: Vol. 1. Attachment* (2nd ed.). Basic Books. (Cyhoeddwyd y gwaith gwreiddiol ym 1969)

Hughes, D. A. (2006) *Building the bonds of attachment: Awakening love in deeply troubled children*. Jason Aronson.

Perry, B. D. and Szalavitz, M. (2006) *The boy who was raised as a dog: And other stories from a child psychiatrist's notebook*. Basic Books.

Porges, S. W. (2011) *The polyvagal theory: Neurophysiological foundations of emotions, attachment, communication, and self-regulation.* W. W. Norton & Company.

8 Grant, M., Whincup, H. and Burgess, C. (2019) 'Perspectives on kinship care, foster care, and adoption: the voices of children, cares and adoptive parents.' Permanently Progressing? Building secure futures for children in Scotland. Prifysgol Stirling. **Final Report – Children Carers and Adoptive Parents.pdf**

9 Chacko, A., Fabiano, G. A., Doctoroff, G. L. and Fortson, B. (2018) 'Engaging Fathers in Effective Parenting for Preschool Children Using Shared Book Reading: A Randomized Controlled Trial', *Journal of clinical child and adolescent psychology: the official journal for the Society of Clinical Child and Adolescent Psychology, American Psychological Association, Division 53*, 47(1), tudalennau 79-93. **https://doi.org/10.1080/15374416.2016.1266648**.

Weisleder, A., Cates, C. B., Harding, J. F., Johnson, S. B., Canfield, C. F., Seery, A. M., Raak, C. D., Alonso, A., Dreyer, B. P. and Mendelsohn, A. L. (2019) 'Links between Shared Reading and Play, Parent Psychosocial Functioning, and Child Behavior: Evidence from a Randomized Controlled Trial', *The Journal of Pediatrics*, 213, tudalennau 187-195.e1. **https://doi.org/10.1016/j.jpeds.2019.06.037**




## Ymchwil yn BookTrust

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ymchwil, arloesi ac effaith yn BookTrust ar ein **gwefan**, gan gynnwys ein cyfres ymchwil ar ddarllen ar gyfer plant o gefndiroedd teuluol agored i niwed:

- **Creu cysylltiadau trwy rannu llyfrau**
- **Gwerth perthynol darllen: safbwyntiau gan ofalwyr sy'n berthynas**
- **Swyddogaeth darllen i blant sy'n agored i niwed**
- **Adroddiad Effaith y Clwb Blwch Llythyrau 2025**

Ewch i **booktrust.org.uk** i ddarganfod mwy neu cysylltwch â **queries@booktrust.org.uk**.